

Gofynner am / Please ask for: Rebecca S Thomas

Eich cyf / Your ref:

Llinell Uniongyrchol / Direct Line: 01554 742369

Fy nghyf / My ref: RST

E-bost Uniongyrchol / Direct E-mail: RSThomas@carmarthenshire.gov.uk

Ffacs / Fax:

Dyddiad / Date: As Postmark

DX:

CYFLOGI PLANT

Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933

**Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963, Deddf Addysg 1996.
Rheoliadau Plant (Diogelu yn y Gwaith) 1998 ac Is-ddeddfau Cyngor Sir Caerfyrddin
1998**

Annwyl Syr/Madam

Dymunaf dynnu eich sylw at is-ddeddfau 1998 Cyngor Sir Caerfyrddin ynghylch Cyflogi Plant. Mae dyletswydd gyfreithiol ar gyflogwyr i sicrhau y cydymffurfir â'r is-ddeddfau hyn. Oni chydymffurfir â'r is-ddeddfau, gellid dwyn achos llys gan roi dirwyon mawr.

Amgaeaf y dogfennau perthnasol sy'n ymwneud â chyflogi plant ichi eu darllen a'u defnyddio. Mae croeso ichi eu llungopïo os oes angen. Os ydych yn perthyn i unrhyw un o'r categorïau a restrir yn y dogfennau amgaeedig, rhaid ichi lenwi'r ffurflenni cais. Rhaid i'r **cyflogwr** a'r **rhiant neu'r gwarcheidwad** eu llofnodi a'u dychwelyd, ynghyd â **2 lun o'r plentyn sef lluniau maint pasbort sydd wedi eu llofnodi**. Rhaid dychwelyd y ddogfen berthnasol ataf i'r cyfeiriad a nodir uchod. Pan gawn ffurflen gais wedi'i llenwi, byddwn yn anfon trwydded at y cyflogwr a bydd llun-garden adnabod yn cael ei rhoi i'r plentyn.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch neu os ydych am drafod cynnwys y llythyr hwn, mae croeso ichi gysylltu â Rebecca Thomas, Swyddog Cyflogi Plant, drwy ffonio'r rhif a nodir uchod.

Diolch ichi ymlaen llaw am eich cydweithrediad yn y mater hwn.

Yn gywir



Stefan Smith

Pennaeth y Gwasanaethau Plant

Stefan Smith

Pennaeth y Gwasanaethau Plant,
Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2,
Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job,
Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 3HB

Head of Children's Services,
Department for Education and Children,
Building 2, St. David's Park, Job's Well Road,
Carmarthen, Carmarthenshire SA31 3HB

*Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn croesawu
gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg
Carmarthenshire County Council welcomes
correspondence in Welsh or English*



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

CYFLOGI PLANT

Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933
Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963, Deddf Addysg 1996.
Rheoliadau Plant (Diogelu yn y Gwaith) 1998 ac Is-ddeddfau Cyngor Sir Caerfyrddin 1998

I'W LENWI GAN RIANT/GWARCHIEDWAD Y PLENTYN

(DEFNYDDIWCH BRIFLYTHRENNAU BLOC)

Enw'r Plentyn: (yn llawn)

Cyfeiriad:

Rhif ffôn:

Yr Ysgol a Fynychir:..... Dyddiad Geni:
(Byddwn yn gwirio cofnodion yr ysgol.)

Enw'r rhiant/gwarcheidwad:(Mr/Mrs/Miss/Ms)

Mae'r plentyn uchod yn abl ac yn iach yn feddygol i wneud y gwaith a nodir drosodd.
Rwy'n caniatáu drwy hyn i'r plentyn a enwir gael ei gyflogi ac rwy'n tystio bod y dyddiad geni yn gywir.

Llofnod: Dyddiad:

Er mwyn inni brosesu'r cais hwn a rhoi trwydded waith ichi, bydd arnom angen 2 lun maint pasbort a chyfredol o'r plentyn. A fyddech cystal ag anfon y lluniau gyda'r ffurflen hon, sef un llun wedi'i lofnodi gan y cyflogwr a'r llall wedi'i lofnodi gan y plentyn.

D.S. UCHAFSWM YR ORIAU GWAITH A GANIATEIR

(a) Diwrnodau Ysgol **2 awr** o waith fel a ganlyn – **1 awr** rhwng 7am ac 8.30am ac **1 awr** rhwng **4pm a 7pm**, neu **2 awr** rhwng **4pm a 7pm**.

(b) Dydd Sadwrn:	Plant 13–15 oed	5 awr rhwng 7am – 7pm
	Plant dros 15 oed	8 awr rhwng 7am – 7pm
Dydd Sul:	Plant 13–15 oed	2 awr rhwng 7am – 11am
	Plant dros 15 oed	2 awr rhwng 7am – 11am

(c) Gwyliau'r Ysgol

1. Plant 13–15 oed **5 awr** bob dydd, hyd at uchafswm o 25 awr yr wythnos
rhwng 7am – 7pm.

2. Plant dros 15 oed **8 awr** bob dydd, hyd at uchafswm o 35 awr yr wythnos
rhwng 7am – 7pm.

NI CHAIFF YR UN PLENTYN WEITHIO MWY NA 12 AWR YR WYTHNOS PAN FO'N OFYNNOL IDDO/IDDI FYND I'R YSGOL

Sylwer: Ni chaniateir gweithio mwy na 2 awr rhwng 7am ac 11am ar y Sul a dylid cynnwys yr oriau hyn wrth gyfrif yr uchafswm ar gyfer unrhyw wythnos a nodir yn (c) uchod.

CYFLOGI PLANT

Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933
Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963, Deddf Addysg 1996.
Rheoliadau Plant (Diogelu yn y Gwaith) 1998 ac Is-ddeddfau Cyngor Sir Caerfyrddin 1998

I'W LENWI GAN Y CYFLOGWR

Enw'r cyflogwr:

Cyfeiriad:

Y Math o Fusnes:

Y Gweithle:

Y Math o Waith

Cwmni Yswiriant:.....

Rhif y Polisi: **Dyddiad Dod i Ben:**

Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Pobl Ifanc) 1997 cynhaliwyd asesiad risg o'r dyletswyddau a wneir yn y swydd hon.

D.S. Ni chaniateir i blentyn weithio mwy na phedair awr y dydd heb gael seibiant am awr. Ni chaiff plentyn weithio'n barhaus drwy'r flwyddyn a rhaid cymryd pythefnos ar ei hyd o wyliau yn ystod gwyliau'r ysgol.

Dyddiad:..... **Llofnod:** **Swydd yn y cwmni:**

Amser dechrau a gorffen gwaith:

Diwrnodau Ysgol:..... **Dydd Sadwrn:**

Gwyliau Ysgol: **Dydd Sul:**

Deddf Diogelu Data 1998 – Prosesir y wybodaeth hon yn unol â Deddf Diogelu Data 1998, at ddiben Gweinyddu Addysg a Hyfforddiant, ac yn benodol monitro cyflogaeth plant.

**AR ÔL EU LLENWI, DYLLID DYCHWELYD Y FFURFLENNI I'R:
CYFLOGI PLANT, ADRAN ADDYSG A PHLANT, ADRAN CYMORTH
BUSNES, ADEILAD 2, PARC DEWI SANT, HEOL FFYNNON JOB,
CAERFYRDDIN, SIR GAERFYRDDIN, SA31 3HB.
RHIF FFÔN:- 01267 266545.**

GWAITH RHAN-AMSER
YR ORIAU GWAITH A GANIATEIR

Os ydych yn gweithio, mae'r rheolau canlynol yn berthnasol i chi hyd nes y byddwch yn cyrraedd oed gadael ysgol. Dylai ffurflen gael ei llenwi a'i llofnodi gan eich rhieni a'ch cyflogwr a dylid ei dychwelyd i'r cyfeiriad isod cyn ichi ddechrau gweithio.

Pan fyddwch yn	Gallwch weithio ar	Yn ystod yr oriau canlynol:-
13 a	Diwrnodau Ysgol	Hyd at 2 awr y dydd yn ystod y cyfnodau canlynol:- (a) Yn y bore rhwng 7am a dechrau'r diwrnod ysgol (awr ar y mwyaf) (b) Gyda'r hwyr rhwng diwedd y diwrnod ysgol a 7pm.
	Dydd Sadwrn	5 awr y dydd rhwng 7am a 7pm
14	Dydd Sul	2 awr y dydd rhwng 7am ac 11am
	Gwyliau ysgol	5 awr y dydd ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos (ac eithrio dydd Sul) rhwng 7am a 7pm, ond ni chaniateir gweithio mwy na 25 awr yr wythnos. Rhaid ichi gael pythefnos ar ei hyd o wyliau y flwyddyn a rhaid cymryd y pythefnos hwnnw yn ystod gwyliau'r ysgol.
15	Diwrnodau Ysgol	Hyd at 2 awr y dydd yn ystod y cyfnodau canlynol:- (a) Yn y bore rhwng 7am a dechrau'r ysgol (awr ar y mwyaf) (b) Gyda'r hwyr rhwng diwedd y diwrnod ysgol a 7pm.
	Dydd Sadwrn	8 awr y dydd rhwng 7am a 7pm
	Dydd Sul	2 awr y dydd rhwng 7am ac 11am
	Gwyliau ysgol	8 awr y dydd ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos (ac eithrio dydd Sul) rhwng 7am a 7pm, ond ni chaniateir gweithio mwy na 35 awr yr wythnos. Rhaid ichi gymryd pythefnos ar ei hyd o wyliau y flwyddyn a rhaid ichi gymryd y pythefnos hwnnw yn ystod gwyliau'r ysgol.
16	Bydd yr oriau gwaith a bennwyd ar gyfer rhai 15 oed yn berthnasol tra byddwch o oed ysgol gorfodol. Os dymunwch, mae'r gyfraith yn caniatáu ichi adael yr ysgol ar y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn pryd y byddwch yn 16 oed. Ni chaniateir ichi weithio'n amser llawn tan ar ôl y dyddiad hwnnw.	
NI CHANIATEIR I BLENTYN WEITHIO MWY NA 12 AWR YN YSTOD WYTHNOS PRYD Y MAE'N RHAID IDDO/IDDI FYND I'R YSGOL.		
(* Ni chaniateir i blentyn o unrhyw oed weithio mwy na 4 awr y dydd heb egwyl o awr.)		

Gellir cael ffurflenni cais/pecynnau gwybodaeth sy'n rhoi manylion am y gwaith a ganiateir ac amodau eraill drwy gysylltu â'r:-

CYFLOGI PLANT, ADRAN ADDYSG A PHLANT, ADRAN CYMORTH BUSNES, ADEILAD 2, PARC DEWI SANT, HEOL FFYNNON JOB, CAERFYRDDIN, SIR GAERFYRDDIN, SA31 3HB. RHIF FFÔN:- 01267 266545.

Y GWAITH A GANIATEIR

Pan fyddwch yn 13	Dim ond 'gwaith ysgafn' a ganiateir ichi ei wneud yn un neu ragor o'r meysydd canlynol <ul style="list-style-type: none">• Gwaith amaethyddol neu arddwriaethol• Dosbarthu papurau newyddion, cylchgronau a chyhoeddiadau eraill• Gwaith siop, gan gynnwys llenwi silffoedd• Siopau trin gwallt• Gwaith swyddfa• Mewn caffi neu fwyty (ond nid mewn cegin)• Mewn stablau marchogaeth ceffylau• Gwaith domestig mewn gwestai a sefydliadau eraill sy'n darparu llety
14 a 15	Dim ond gwaith ysgafn y caniateir ichi ei wneud. Caniateir ichi fasnachu ar y stryd os ydych yn cael eich cyflogi gan eich rhieni yn gysylltiedig â'u busnes ac os ydynt yn eich goruchwyllo, neu os yw'r awdurdod lleol wedi rhoi trwydded masnachwr stryd ichi .
16	Bydd y cyfyngiadau uchod yn dal yn berthnasol tra ydych o oed ysgol gorfodol (gweler drosodd).

Gwaith na chaniateir i blant oed ysgol gorfodol ei wneud

Ni chaniateir i blentyn beth bynnag fo'i oed weithio fel a ganlyn:-

- Ar ddiwrnod pan fo'n absennol o'r ysgol oherwydd salwch.
- Mewn sinema, theatr, discotec, neuadd ddawnsio na chlwb nos, oni bai ei fod yn gysylltiedig â pherfformiad gan blant yn unig.
- Gwerthu alcohol i gwsmeriaid, gweini alcohol i gwsmeriaid neu ddsbarthu alcohol.
- Dosbarthu llaeth.
- Dosbarthu olew tanwydd.
- Mewn cegin fasnachol.
- Casglu neu ddiidoli sbwriel.
- Gwaith sy'n digwydd fwy na thri metr uwchlaw'r ddaear neu, yn achos gwaith dan do, fwy na thri metr uwchlaw'r llawr.
- Gwaith sy'n golygu dod i gysylltiad â chyfryngau ffisegol, biolegol neu gemegol niweidiol.
- Casglu taliadau neu werthu/canfasio o ddrws i ddrws.
- Gwaith sy'n golygu dod ar draws deunydd i oedolion yn unig neu sefyllfaoedd sydd am y rheswm hwn yn anaddas i blant.
- Gwerthu dros y ffôn.
- Mewn unrhyw ladd-dy neu yn y rhan honno o unrhyw siop gigydd neu adeiladau eraill sy'n gysylltiedig â lladd da byw, gwaith cigydd neu baratoi carcasau anifeiliaid neu gig i'w gwerthu.
- Fel ceidwad neu gynorthwy-ydd mewn ffair neu arcêd ddefnyddion neu mewn unrhyw adeilad arall a ddefnyddir i ddefnyddio'r cyhoedd â pheiriannau awtomatig, gêmiau hapchwarae neu sgîl neu ddyfeisiau tebyg.
- Darparu gofal personol mewn cartref gofal preswyl neu mewn cartref nyrsio oni bai fod oedolyn cyfrifol yn ei oruchwyllo'n fanwl.